PARTNERIAETHAU NATUR LLEOL
LOCAL NATURE PARTNERSHIPS
CYMRU

Partneriaeth Natur Leol Caerdydd
Cardiff Local Nature Partnership

CARDIFF
CAERDYDD

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Astudiaeth Achos

## Gwirfoddolwyr yng Nghaerdydd yn helpu i reoli'n parciau er lles natur





# Gwirfoddolwyr yng Nghaerdydd yn helpu i reoli'n parciau er lles natur

Ers sawl blwyddyn bellach, rydym wedi bod yn torri'r borfa yn ein parciau a mannau agored yn llai ac yn llai aml, er mwyn i blanhigion gael blodeuo a bwydo pryfed peillio.

A ninnau wedi prynu peiriannau newydd gyda grant 'Lleoedd Lleol ar gyfer Natur' Llywodraeth Cymru, rydyn ni nawr yn gallu casglu'r torion porfa ar ôl torri'r borfa ar fwy a mwy o safleoedd (gweler y lluniau isod). Trwy gasglu'r torion, mae mwy o amrywiaeth o blanhigion yn gallu tyfu.




© Richard Cornock



© Richard Cornock

Er bod llawer o dystiolaeth bod torri'r borfa'n llai aml a chasglu torion yn hwb i fioamrywiaeth, gwnaethon ni feddwl beth am edrych a oes gwahaniaeth yn y planhigion sy'n tyfu ar ein safleoedd ni, a chasglu tystiolaeth leol i wneud rhagor o'r math hwn o waith.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Partneriaeth Natur Leol Caerdydd wedi cael help gwirfoddolwyr i fonitro effaith y newidiadau rheoli hyn. Mae gwirfoddolwyr wedi bod yn cofnodi nifer y gwahanol fathau o blanhigion sy'n tyfu mewn darn o borfa sy'n cael ei dorri'n aml ac mewn darn wrth ei ymyl sy'n cael ei dorri dim ond unwaith neu ddwywaith y flwyddyn.



© Sean McHugh

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47087, ISBN digidol 978-1-80535-633-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg


Mae Partneriaeth Natur Leol Caerdydd wedi bod yn cydweithio â'r Ymddiriedolaeth Natur i ddatblygu rhaglenni am ddim o weithdai hyfforddi ymarferol ac ar-lein. Mae hyn wedi datblygu sgiliau adnabod planhigion ein gwirfoddolwyr. Hyd yn hyn, rydyn ni wedi recriwtio a hyfforddi dros 30 o wirfoddolwyr sydd wedi archwilio dros 50 o safleoedd. Dipyn o gamp!




© Sam Eaves

Mae ffrwyth gwaith ein gwirfoddolwyr yn haf 2022 i'w gweld yn y siartiau isod. Tywylla'n y byd y lliw, mwya'n y byd yr amrywiaeth o blanhigion. Fel y gwelwch, mae'r canlyniadau'n dangos bod mwy o wahanol fathau o blanhigion wedi'u cofnodi ar y safleoedd sy'n cael eu torri'n llai aml.

**Amrywiaeth y planhigion - porfa sy'n cael ei thorri unwaith 2022**




**Amrywiaeth y planhigion - porfa sy'n cael ei thorri'n aml 2022**



Mae ymateb gwirfoddolwyr a'r Ymddiriedolaeth Natur wedi bod yn bositif iawn. Dyma rai o'r sylwadau sydd wedi dod i law:

"Dwi wir wedi mwynhau cymryd rhan yn yr Arolwg o Borfa sy'n cael ei thorri unwaith a'r fioamrywiaeth. Mae wastad diddordeb wedi bod 'da fi mewn planhigion, ac er i fi neud Bioleg lefel A flynyddoedd yn ôl, roedd fy ngwybodaeth yn brin. Rŷn ni wedi cael sesiynau dysgu gwych am blanhigion, pili-palod, gwyfynod a gwenyn ac erbyn hyn, dwi'n teimlo y galla i enwi rhai o blanhigion a phili-palod mwya cyffredin y dolydd. Yr uchafbwynt oedd y sesiwn adnabod gwyfynod y nos yn Fferm y Fforest, pan welon ni 60-70 o rywogaethau, gan gynnwys Gwalch-wyfyn yr Helyglys. Mae'r arolwg wedi dangos bod amrywiaeth y planhigion yn cynyddu a hefyd nifer y pili-palod a gwenyn a phryfed eraill."



© Sean McHugh

"Roedd yn bleser cael y cyfle i gyfrannu fel gwirfoddolwr a dw i wedi sôn am y prosiect droeon wrth gymdogion, ffrindiau a chydweithwyr.

Byddwn yn cefnogi unrhyw brosiect sy'n helpu pobl i ymwneud â'r amgylchedd lleol, yn enwedig yma yn Llanrhymni gan ein bod yn wynebu nifer o ddatblygiadau mawr a allai, dwi'n ofni, gael effaith andwyol ar gynefinoedd lleol."



© Elisabeth Edwards

"Mae hi wedi bod yn bleser i Ymddiriedolaeth Natur y De a'r Gorllewin drefnu'r hyfforddiant ar gyfer y prosiect peillwyr. Rydyn ni wedi datblygu sgiliau y gwirfoddolwyr i adnabod planhigion, gwenyn, pili-palod a gwyfynod y glaswelltir. Mae grŵp ardderchog o wirfoddolwyr wedi cymryd rhan. Ers cynnal yr hyfforddiant, mae arolygon wedi'u cynnal ar bob un o'r darnau tir sy'n cael eu torri unwaith y flwyddyn. I'r gwirfoddolwyr ddaeth am yr hyfforddiant, ac am eu gwaith caled a'u brwdfrydedd, y mae'r diolch am hynny."



© Elisabeth Edwards

Rydyn ni'n dal wrthi'n datblygu rhaglen i wirfoddolwyr, gan gynnig hyfforddiant a chyfleoedd archwilio ym mhob tymor. Os ydych chi'n byw neu'n gweithio yng Nghaerdydd ac yr hoffech gael bod yn rhan o hyn, e-bostiwch Sam Eaves (Trefnydd y Bartneriaeth Natur Leol) biodiversity.team@cardiff.gov.uk